# Mesur Effaith Gymdeithasol Mudo ar Lefel Awdurdod Lleol

## Crynodeb Gweithredol

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

www.cymru.gov.uk

Ymchwil crynodeb | Ymchwil gymdeithasol | Rhif y ddogfen: 06/2010

**Nodau ac amcanion yr ymchwil**

Prif amcan yr ymchwil oedd ystyried effaith gymdeithasol mudo ar lefel Awdurdod Lleol mewn tair ardal astudiaeth achos leol. Y tri awdurdod lleol a ddewiswyd ar gyfer yr astudiaethau achos oedd Sir Gaerfyrddin, Casnewydd a Wrecsam.

Roedd yr ymchwil yn ffocysu ar weithwyr mudol o'r Gwladwriaethau A8 sydd Wedi'u Derbyn (Gweriniaeth Tsiec, Estonia, Hwngari, Latfia, Lithwania, Gwlad Pwyl, Slofacia a Slofenia) ond roedd hefyd yn cynnwys mudwyr o wledydd eraill.

Roedd y prosiect yn cynnwys adolygiad eang o waith ymchwil blaenorol yn y maes, cyfweliadau gyda staff o awdurdodau lleol a sefydliadau cyhoeddus a phreifat eraill a chyfweliadau gyda gweithwyr mudol ym mhob ardal astudiaeth achos.

Cynhaliwyd cyfuniad o gyfweliadau hanner-strwythuredig a grwpiau ffocws gyda dros 70 o gynrychiolwyr o'r awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill a oedd yn gweithio gyda gweithwyr mudol neu'n gweithio drostynt. Gofynnodd yr ymchwil hefyd am farn dros 80 o weithwyr mudol. Cafodd y data ei gasglu rhwng Chwefror a Mai 2008.

Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Un anhawster mawr yw'r ansicrwydd ynghylch niferoedd y gweithwyr mudol

sydd wedi cyrraedd mewn ardaloedd Awdurdod Lleol penodol. Y ddwy brif ffynhonnell o'r wybodaeth hon yw'r Cynllun Cofrestru Gweithwyr (WRS) a chofrestriadau Rhifau Yswiriant Gwladol (NINo). Tra bod y rhain yn rhoi rhyw syniad o ffigyrau cyffredinol, nid ydynt yn rhoi union ffigwr gan nad yw'r holl weithwyr mudol A8 yn cofrestru o dan y ddau gynllun, ac nid oes unrhyw gofnod o'r rheiny sy'n cofrestru ond yn gadael y wlad. Anhawster pellach sy'n wynebu awdurdodau lleol yw y gall gweithwyr mudol gofrestru mewn un ardal leol, ond wedyn symud i un arall yn dilyn hynny.

O holl awdurdodau lleol Cymru, Sir Gaerfyrddin sydd wedi denu'r nifer fwyaf o weithwyr mudol A8, yn enwedig i Lanelli a'r dalgylch. Y grŵp mwyaf yw Pwyliaid, ond mae llawer o genhedloedd eraill hefyd. Cododd hyn nifer o faterion o safbwynt gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig i'r ysgolion Catholig ynghylch ariannu a'r nifer o athrawon sydd â sgiliau arbenigol. Mae Cyngor Sir Gaerfyrddin wedi sefydlu Grŵp Tasg i ymateb i alwadau polisi'r sefyllfa hon.

Mae Casnewydd hefyd wedi profi cynnydd mewn mudo, yn enwedig o Wlad Pwyl, ond mae llai o wybodaeth ynglŷn â niferoedd ac amodau'r gweithwyr hyn. Nodwyd problemau ym maes tai, ond nid oes llawer o wybodaeth ynglŷn â meysydd polisi addysg, iechyd a chydlyniant cymunedol. Mae gan Gasnewydd hanes o fewnfudiaeth, ac mae'r Awdurdod Lleol i ryw raddau wedi cynnwys mudwyr economaidd diweddar mewn rhaglenni presennol sy'n gweithio â ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Mae angen cynnal mwy o ymchwil yng Nghasnewydd i roi dealltwriaeth fwy dwfn o'r ardal astudiaeth achos benodol hon.

Mae gan Wrecsam boblogaeth fudol sylweddol, a Phwyliaid yw'r genedl fwyaf. Mae'r Cyngor Bwrdeistrefol Sirol wedi datblygu rhaglen helaeth i integreiddio'r newydd ddyfodiaid ac mae'n gweithio gyda rhwydwaith eang o grwpiau gwirfoddol a busnes i sicrhau bod hyn yn digwydd. Mae'r Cyngor a'i bartneriaid statudol a sector wirfoddol wedi datblygu nifer o fentrau, megis taflenni gwybodaeth a chyrsiau iaith i helpu cynhwysedd.

Mae Rheoliadau Derbyn (Mudo a Chofrestru Gweithwyr) y DU 2004 yn caniatáu i wladolion A8 gael mynediad at fudd-daliadau a chymorth tai ar yr

un sail â gweithwyr AEE (Ardal Economaidd Ewropeaidd[1]) eraill, tra'u bod yn gweithio. Ond nid yw gwladolion A8 nad ydynt yn gweithio â hawl i gymorth o'r fath fel arfer. Dim ond ar ôl iddynt fod wedi bod yn gweithio'n ddi-dor yn y DU am gyfnod o 12 mis o leiaf y bydd gwladolion A8 yn cael hawliau Cytundeb llawn, sy'n cynnwys mynediad at fudd-daliadau.

Mae mudo tymor byr cynyddol wedi arwain at rai pryderon ynglŷn â'r costau economaidd, yn ogystal â rhai budd-daliadau, sy'n gysylltiedig â'r ffenomen hon. Tra bod gweithwyr mudol unigol yn llai tebygol na'r gymuned ble maent yn byw o ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus, eto mae'r nifer cyffredinol o weithwyr mudol wedi arwain at beth cynnydd mewn galw, yn enwedig ar gyfer gwasanaethau cyfieithu.

Mae proffil addysgol a sgiliau mewnfudwyr wedi newid gyda chyrhaeddiad gweithwyr mudol diweddar o'r gwledydd A8. Yn bennaf, pobl ifanc gyda lefelau uchel o addysg a sgiliau fu gweithwyr mudol A8 i'r DU, o'u cymharu â'r boblogaeth frodorol (Comisiwn Archwilio, 2007:12; Schneider a Holman, 2005). Mae llawer yn cael eu cyflogi mewn galwedigaethaunad ydynt yn gymesur â'u cymwysterau. Mae'r mwyafrif un ai'n ddibriod neu, os ydynt yn briod, heb dibynyddion. Fodd bynnag, mae'n bosib y bydd dibynyddion yn ymuno â rhai ohonynt ar ddyddiad diweddarach wrth iddynt ymgartrefu fwy (Comisiwn Archwilio, 2007).

Mae'r data o'r ffigyrau WRS yn rhoi darlun o gefndir cenedlaethol a nodweddion demograffeg y gweithwyr mudol hyn, eu rheswm datganedig dros ddod i'r DU, a'r mathau o waith maent yn eu gwneud a'u lleoliadau daearyddol yn y DU.

Mae'r mwyafrif o'r rhai sydd wedi cofrestru yng Nghymru yn gweithio mewn "gweinyddu, busnes a gwasanaethau rheoli" gyda dim ond 3% mewn amaethyddiaeth (ond mae'r mwyafrif o'r rheiny sydd yn y sector gweinyddu, busnes a rheolaeth yn gweithio i asiantaethau recriwtio, a gallant fod yn gyflogedig mewn amrywiaeth o ddiwydiannau).

[1] Mae gwledydd yr AEE yn cynnwys y 27 gwladwriaeth sy'n aelodau'r UE ynghyd â thair o bedair gwlad y Cytundeb Masnach Rydd Ewropeaidd (EFTA) – Gwlad yr Ia, Liechtenstein a Norwy. Penderfynodd y pedwerydd aelod, y Swistir, mewn refferendwm i beidio ag ymuno â'r gymdeithas.

**Lleoliadau daearyddol gweithwyr mudol A8: Cymru a'r DU yn ei chyfanrwydd**

Er bod mudo blaenorol yn tueddu i fod yn ddwys yn Llundain, mae mewnfudiaeth A8 wedi ffafrio Anglia (15% o'r cyfanswm) a Chanolbarth Lloegr (13%) gyda Llundain yn y trydydd safle (12%). Cymru yw'r gyrchfan a ffafriwyd leiaf o'r holl DU gyda dim ond oddeutu 3% o fudwyr A8 yn symud yno (Swyddfa Gartref, 2007: 18). Yng Nghymru, cofrestrodd 20,735 o weithwyr mudol A8 ar yr WRS rhwng 1 Mai 2004 a 31 Rhagfyr 2007. Mae pedwar awdurdod lleol yng Nghymru wedi bod yn brif gyrchfannau i'r gweithwyr hyn. (Y ffigyrau ar gyfer y rheiny a gofrestrodd rhwng 1 Mai 2004 a 30 Mawrth 2007 oedd: Sir Gaerfyrddin (2,635), Wrecsam (2,565), Casnewydd (2,405) a Chaerdydd (1,855) (LlCC, 2007: 4).) Fodd bynnag, dim ond y rhai sydd wedi cofrestru i weithio ar gyfer cyflogwyr yn yr ardaloedd hyn mae'r ffigyrau hyn yn eu cofnodi, ac mae'n bosib nad ydynt yn cynrychioli'r nifer gwirioneddol o fudwyr sy'n gweithio yno. Mae'n bosib bod y rheiny a gofrestrodd ar y cychwyn wedi dychwelyd gartref, ac efallai bod gwladolion A8 eraill yn gweithio yn yr ardaloedd hyn, ond heb gofrestru.

**Gwybodaeth a chanllawiau**

Mae ymchwil blaenorol ar weithwyr mudol yn dangos y cafwyd diffyg canllawiau o safbwynt rhoi cyngor sylfaenol ynglŷn â llawer o agweddau o fyw yn y DU; nid yn unig sut i gael cyfrif banc, ond hefyd gwybodaeth ynghylch cyngor cyfreithiol, rheolau a rheoliadau cyflogaeth, hawliau a chyfrifoldebau, gwasanaethau iechyd ac addysg, a threthi. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC, 2006) wedi cynhyrchu pecyn gwybodaeth ar gyfer newydd ddyfodiaid mewn ugain o wahanol ieithoedd. Mae rhai awdurdodau lleol wedi cynhyrchu setiau gwybodaeth groeso eu hunain.

**Astudiaeth achos Sir Gaerfyrddin**

Dangosodd data WRS ar gyfer Sir Gaerfyrddin mai Pwyliaid oedd 94% o gyfanswm gweithwyr mudol yn 2007. Mae dros dri chwarter (77%) y gweithwyr mudol sydd wedi cofrestru i weithio yn Sir Gaerfyrddin yn gweithio yn ardal Llanelli yn rhywle (cod post SA15). Mae dros ddwy ran o dair (69%) o weithwyr mudol sydd wedi cofrestru i weithio yn Sir Gaerfyrddin yn gweithio fel "gweithredwyr prosesau" (hynny yw, gweithwyr ffatri), 4% fel pacwyr, a 4% fel cynorthwywyr gofal a gofalwyr cartref. Mae gwybodaeth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru'n dangos bod 2,635 o geisiadau WRS wedi'u cymeradwyo rhwng Mai 2004 a 31 Mawrth 2007 (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2007: 4).
Sefydlodd Pwyllgor Craffu Cyngor Sir Gaerfyrddin Grŵp Tasg a Gorffen yn 2006 i gael gwell gwybodaeth ynglŷn â'r niferoedd o weithwyr mudol a'r effaith bosib ar wasanaethau a chymunedau. Mae'r adroddiad (Cyngor Sir Gaerfyrddin (2008)) yn cynnwys dadansoddiad manwl o gofrestriadau Meddyg Teulu newydd gan wladolion tramor, yn ôl gwlad y tarddiad, yn seiliedig ar ddata Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol ar gyfer Cymru. Hefyd mae adroddiad o ymweliad canfod ffeithiau i gwmni prosesu cig Dunbia, ac adolygiadau o ddarpariaeth ESOL, a'r Gwasanaeth Cyflawni Lleiafrifoedd Ethnig. Mae'r olaf yn rhoi cymorth mewn ysgolion i blant gwladolion tramor.

**Llety**

Mae gweithwyr mudol yn Sir Gaerfyrddin yn tueddu i fyw mewn llety rhent sydd un ai ynghlwm i'w cyflogaeth neu wedi'i rentu'n breifat drwy asiant rheoli neu landlord. Ychydig iawn sydd wedi prynu eu tai eu hunain, ac nid oedd dim un o'r gweithwyr mudol a gyfwelwyd yn byw mewn tai cyngor neu gymdeithasol. Adroddodd un teulu mudwyr Pwylaidd eu bod yn derbyn budd-dâl tai.
Yr enghraifft fwyaf cyffredin o lety clwm yn Sir Gaerfyrddin yw gan weithwyr mudol a gyflogir drwy asiantaeth gyflogaeth, sy'n berchen ac yn rhentu tai amrywiol i'w gweithwyr mudol, gan dynnu eu rhent o'u cyflogau. Cyfeiriwyd at

un o’r tai hyn fel y “*Gwesty Pwylaidd*” gan weithwyr mudol; (ar un pryd roedd yn westy ond roedd wedi’i drosi i lety hostel gan asiantaeth gyflogaeth a oedd yn recriwtio yng Ngwlad Pwyl). Dywedodd y gweithwyr mudol Pwylaidd wrth yr ymchwilwyr bod rhai gweithwyr mudol yn symud i lety rhent preifat cyn gynted â phosib, un ai i ostwng eu costau neu i wella safon eu llety.

**Iechyd**

Yn gyffredinol, mae’r gwasanaethau iechyd yn rhagweithiol wrth ddelio â materion gweithwyr mudol. Yn Ionawr 2008 lansiodd y Bwrdd Iechyd Lleol (BILl), ar y cyd gyda Chymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin (CAVS), lawlyfr o’r enw ‘Canllaw cyfleus i’ch gwasanaethau iechyd lleol’. Mae’r llawlyfr hwn ar gael yn y Gymraeg a’r Saesneg, gyda’r ddwy fersiwn yn cynnwys cyfieithiad Pwyleg. Mae’r llawlyfr yn cynnwys gwybodaeth hawdd i’w deall am y gwasanaethau iechyd, yr hyn sydd ar gael a’r prosesau amrywiol y mae’n rhaid i unigolyn eu dilyn wrth ddefnyddio’r gwasanaethau iechyd.

Yn ôl y gwasanaethau iechyd, yr unig rwystr a wynebir gan weithwyr mudol wrth gael mynediad at y system gofal iechyd yw’r rhwystr iaith. Pan nad yw gweithiwr mudol yn siarad Saesneg neu fod ei Saesneg yn brin, gall fod yn anodd iawn iddo gyfathrebu'r hyn mae ei eisiau.

**Addysg**

Yn lleol, mae cynllunio addysg wedi ystyried y nifer o weithwyr mudol. Nawr mae dros 70 o blant o deuluoedd gweithwyr mudol (nid yn unig y rheiny o wledydd A8) yn ysgolion cynradd ac uwchradd Llanelli.

Mae’r Gwasanaeth Cyflawni Lleiafrifoedd Ethnig (MEAS) yn darparu cefnogaeth arbenigol i ddisgyblion ble nad yw eu hiaith gyntaf yn Gymraeg neu Saesneg, ac sydd angen cymorth ar gyfer Saesneg fel Iaith Ychwanegol (EAL). Mae MEAS yn weithredol yn chwilio am ddata ar yr holl ddisgyblion lleiafrifoedd ethnig mewn ysgolion er mwyn sicrhau bod anghenion EAL yn cael eu dynodi’n glir. Ariennir y gwasanaeth drwy grant blynyddol gan LCC, yn seiliedig ar arolwg o ddisgyblion EAL a wneir gan staff MEAS.

Roedd gweithwyr mudol a gyfwelwyd yn teimlo bod rhaid iddynt ddysgu Saesneg gan eu bod yn y DU. Soniwyd am anawsterau wrth gyfathrebu yn y banc a swyddfa'r post. Mae llawer yn dibynnu ar y gwirfoddolwyr yn y Polish Welsh Mutual Association i gyfieithu dogfennau. Mae'r rhan fwyaf o weithwyr mudol wedi mynychu dosbarthiadau Saesneg ar ryw bwynt.

**Materion cymunedol**

Yn gyffredinol, mae'n ymddangos bod gweithwyr mudol yn setlo'i lawr i fyw yn Sir Gaerfyrddin yn weddol dda, yn gwneud cyfeillion gyda gweithwyr mudol eraill a Chymry hefyd. Maent yn dweud bod llawer o bobl yn gyfeillgar tuag atynt ac yn gwenu a dweud helo. Hefyd mae'n yn teimlo'n ddiogel yn gyffredinol yma. Fodd bynnag, maent yn profi rywfaint o hiliaeth, cam-drin geiriol, a fandaliaeth.

**Astudiaeth achos: Casnewydd**

Mae gan Gasnewydd gymunedau Pacistanaidd, Bengali ac Affro-Caribî cymharol hir-sefydlog yn preswylio yn ardal Pill (Dociau) y ddinas, er bod rhannau eraill o'r ddinas megis Victoria a Stow Hill hefyd gyda chymunedau lleiafrifoedd ethnig sylweddol. Mae Casnewydd yn ardal wasgaru ceiswyr lloches, sydd wedi ychwanegu at amrywiaeth ei phoblogaeth.
Dywedodd y rhan fwyaf o'r gweithwyr mudol a gyfwelwyd eu bod eisoes gyda chyfaill neu aelod teulu'n byw a gweithio yn ardal Casnewydd, a dyma pam eu bod wedi dod i Gasnewydd. Dywedodd gweithwyr mudol a gyfwelwyd eu bod yn gweithio mewn gwaith dosbarthu a phacio bwyd, diwydiant lletygarwch, adeiladu neu ffatri.

**Llety**

Mae gweithwyr mudol yn canfod llety drwy amryw o ddulliau, yn cynnwys cyflogaeth (llety clwm); asiantaethau gosod; a rhwydweithiau anffurfiol (cyfeillion/teulu). Pan fydd gweithwyr mudol yn cyrraedd ardal, maent yn

tueddu i aros gyda chyfeillion neu aelodau teulu nes y byddant wedi cael eu llety eu hunain.

Mae tai rhent preifat cost isel, a thai amlfeddiannaeth, (HMOs) yn nodweddiadol o lety y bydd gweithwyr mudol yn ei ganfod.

Cafwyd adroddiadau gan asiantaethau eraill o weithwyr mudol yn byw mewn llety hynod o wael ac yn dioddef o ordyrru. Er enghraifft, mewn un eiddo, a gafodd ei gau i lawr, roedd 28 o unigolion Tsiecaidd yn byw mewn fflat dwy ystafell wely.

**Iechyd**

Adroddodd y gweithwyr mudol a gyfwelwyd eu bod yn cael mynediad at wasanaethau gofal iechyd yng Nghasnewydd, yn fwy penodol meddygon teulu (GPs). Dywedodd y mwyafrif o weithwyr mudol a gyfwelwyd eu bod wedi cofrestru gyda meddyg teulu GIG, ond ychydig iawn gyda phractis deintyddol GIG. Nid oedd rhai gweithwyr mudol wedi cofrestru gyda meddyg teulu ac yr oeddynt yn dweud y buasent yn mynd i'r ysbyty os oedd ganddynt broblem iechyd.

Y prif broblem mae darparwyr gwasanaeth yn ei wynebu yw'r rhwystr iaith. Yn gysylltiedig â hyn, mae'r gost o ddefnyddio Llinell Iaith, sy'n rhoi pwysau ar eu cyllideb. Nodwyd hefyd bod angen hyfforddi staff llinell flaen i ddefnyddio cyfieithwyr, a bod angen hyfforddi'r cyfieithwyr eu hunain i aros yn wrthrychol mewn sefyllfaoedd sensitif ac osgoi defnyddio jargon.

**Addysg**

Ym maes addysg, gwelwyd effaith fwyaf gweithwyr mudol a'u teuluoedd yn symud i ardal Casnewydd yn yr Ysgolion Cynradd. Mae'r ysgolion Catholig yn enwedig wedi'u heffeithio oherwydd y nifer uchel o bobl Bwylaidd yn yr ardal. Mae ysgolion yn ardal Pill hefyd wedi gweld effaith sylweddol gweithwyr mudol yn setlo yn yr ardal. Dyrannwyd mwy o adnoddau a chymorth i'r ysgolion hyn i ymdopi â'r galw a gofynion ychwanegol; fodd bynnag, mae pwysau mawr ar adnoddau a dywedodd GEMSS (Gwasanaeth Cymorth

Addysg Aml Ethnig Gwent) ac un ysgol y byddent yn croesawu adnoddau/ariannu ychwanegol.

**Materion cymunedol**

Mae dyfodiad gweithwyr mudol i Gasnewydd dros y pedair blynedd ddiwethaf wedi ychwanegu at boblogaeth a oedd eisoes yn un amrywiol. Roedd gwahanol safbwyntiau ynghylch p'un a oedd cymunedau lleol presennol wedi derbyn y gweithwyr mudol i'r gymuned, ond teimlwyd nad oedd gweithwyr mudol wedi integreiddio'n llawn i'r gymuned. Teimlwyd mewn ardaloedd ble nad oedd y boblogaeth bresennol mor amrywiol, megis y Cymoedd, y byddai dyfodiad gweithwyr mudol yn cael effaith fwy ar y gymuned leol.

**Astudiaeth achos: Wrecsam**

Mae Cynllun Gweithredol Gweithwyr Mudol (WCBC, 2007) yn cydnabod bod effaith sylweddol wedi bod ar wasanaethau cyhoeddus ac ar ddau wasanaeth yn arbennig: addysg a gwarchod y cyhoedd (WCBC, 2007: 1). Mae dau sefydliad gwirfoddol sy'n gweithio gyda gweithwyr mudol, Partneriaeth Caia Park (CPP) a'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth, hefyd wedi adrodd ynglŷn â phwysau gwasanaeth cynyddol oherwydd y twf mewn niferoedd o weithwyr mudol (ibid). Mae'r CPP ar hyn o bryd yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol (CRE) i ddatblygu model ar gyfer integreiddio lleol, a gyda Chyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam i ddatblygu pecyn cymorth ar gyfer integreiddio. Dosbarthwyd copïau printiedig o'r pecyn cymorth. Mae Grŵp Cydlynu Cydlyniant Cymunedol aml-asiantaeth sy'n cael ei arwain gan y Cyngor yn monitro materion gweithwyr mudol fel rhan o'i gylch gorchwyl.

**Rhoi gwybod i weithwyr mudol am wasanaethau**

Mae'r cynnydd yn y nifer o weithwyr mudol sy'n symud i Wrecsam wedi digwydd ar yr un pryd â'r WCBC yn sefydlu tîm Cydlyniant Cymunedol. Mae'r testun gweithwyr mudol yn uchel ar agenda'r tîm hwn, ynghyd â goresgyn

effeithiau ymraniadau cymdeithasol eraill posib. Cynrychiolir aelodau o'r tîm Cydlyniant Cymunedol ar nifer o grwpiau gweithredu a fforymau trafodaeth anffurfiol gyda chynrychiolwyr eraill o'r sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol. Nodwyd yn ystod y cyfweliadau gyda'r Awdurdod Lleol bod y tîm hwn yn helpu i gydlynu llawer o'r gwaith integreiddio gweithwyr mudol, yn cynnwys rhannu gwybodaeth a hyrwyddo dull mwy cyson o ymdrin â newydd ddyfodiaid i Wrecsam o'r gwladwriaethau A8.

Bu darparu gwybodaeth yn rhan bwysig o'r strategaeth a ddefnyddiwyd gan yr WCBC. Mae'r Cyngor wedi cynhyrchu llawlyfr gwybodaeth, yn cynnwys cyngor ynglŷn â setlo yn yr ardal, ac mae wedi cyflenwi copïau i asiantaethau penodol a gwasanaethau cyhoeddus, sy'n cael eu defnyddio gan weithwyr mudol yn yr ardal. Mae'r llawlyfr hwn wedi'i gyfieithu i Bwyleg, Portiwgaleg, Tsiec a Slofac. Mae'n rhoi cyflwyniad byr i leoliad daearyddol Wrecsam, rhestr o wasanaethau lleol (deintyddion, meddygon ac ysgolion) a chanllawiau ynglŷn â chwilio am swyddi a llety. Mae hefyd yn cynnwys manylion cyswllt sefydliadau perthnasol.

Yn unol â'r agenda cynhwysedd (y cyfeirir ati fel *Agenda Un Wrecsam*), mae'r heddlu a'r gwasanaeth tân hefyd wedi darparu taflenni gwybodaeth mewn gwahanol ieithoedd. Mae'r rhain yn cynnwys rhagofalon diogelwch cartref, gan fod tân wedi bod yn bryder mawr mewn rhai ardaloedd yn achos tai amlfeddiannaeth. Sbardunwyd peth o'r gwaith hwn gan staff yn yr orsaf dân leol, tra bod Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd wedi darparu rhai posteri a thaflenni. Mae'r Awdurdod Lleol wedi darparu gwybodaeth ynglŷn â chasglu sbwriel ac ailgylchu mewn nifer o ieithoedd.

**Llety**

Mae rhai preswylwyr lleol gyda chamsyniad ynglŷn â hawliau gweithwyr mudol i dai cymdeithasol. Dywedodd rhai aelodau o'r gymuned ble mae'r gweithwyr mudol wedi cartrefu bod y cynnydd mewn gweithwyr mudol yn ychwanegu at y pwysau sydd ar y gwasanaethau tai, ond gwrthddywedwyd hyn mewn cyfweliadau gyda staff yr Awdurdod Lleol. Dim ond saith o anheddau Tai Awdurdod Lleol a gafodd eu dyrannu i bobl Bwylaidd yn 2007,

o'i gymharu â phedwar i breswylwyr Portiwgeaidd gwynion, a 721 i bobl a oedd yn dynodi eu hunain fel pobl Wyn Prydeinig.

Mae'n ymddangos nad yw gweithwyr mudol yn cael unrhyw broblemau sylweddol wrth gael mynediad at y farchnad dai rhent preifat. Er enghraifft, roedd llawer o bobl eisoes wedi trefnu llety cyn dod i'r DU, neu roedd ganddynt drefniadau anffurfiol i letya gydag aelodau teulu a oedd eisoes yn byw yn Wrecsam.

**Iechyd**

Er bod y rhan fwyaf o newydd ddyfodiaid yn ymwybodol o ddeintyddfeydd a meddygfeydd yn yr ardal, roedd llawer yn teimlo'n llai sicr o'r modd gorau o gael mynediad at y gwasanaethau iechyd. Roedd canllaw i wasanaethau iechyd yn Wrecsam ar fin cael ei gyhoeddi mewn ieithoedd eraill; hyd yma, darparwyd y cyngor dan sylw ar sail ad hoc gyda diffyg cysondeb (er bod llawlyfr gwybodaeth Wrecsam yn cynnwys gwybodaeth am y Gwasanaeth Iechyd). Adroddodd y rhan fwyaf o weithwyr mudol eu bod fel rheol yn dibynnu ar wybodaeth gan fudwyr eraill, neu eu bod yn gofyn i gynrychiolwyr y sector wirfoddol.

**Addysg**

Dangosodd cyfweliadau gyda staff Awdurdod Lleol bod mudo wedi effeithio'n sylweddol ar y sector addysg. Adroddodd yr Awdurdod Lleol bod y niferoedd o blant o deuluoedd gweithwyr mudol wedi cyrraedd y brig yn 2005/06 ond bod twf wedi dechrau arafu yn awr ac mae'n haws i'w reoli. Mae ysgolion nawr yn fwy hyderus wrth ddelio â disgyblion o Wlad Pwyl a Phortiwgal; gyda'r mwyafrif ohonynt yn mynychu ysgolion Catholig.

*"Yn ein hysgol fwyaf mae gennym tua 65 o ddisgyblion nawr sydd gan fwyaf yn Bwyliaid neu'n Bortiwgeaid, ac mae angen llawer o gymorth â hynny a dweud y gwir." (sector gyhoeddus)*

## Materion cymunedol

Mae'r Grŵp Cydlynu Cydlyniant Cymunedol aml-asiantaeth wedi dynodi "angen brys i weithio'n agosach gyda'r boblogaeth frodorol i hwyluso integreiddio a chydlyniant cymunedol ar draws holl feysydd amrywiaeth" (WCBC, 2007). Mae'r CPP yn darparu rhychwant o wasanaethau sy'n ceisio rhoi cymorth i weithwyr mudol integreiddio i'r gymuned. Yn gyntaf, maent yn eu helpu i drefnu pethau ymysg eu hunain drwy ddarparu cymorth i sefydlu eu sefydliadau cymunedol a mecanweithiau cymorth eu hunain. Yn ail, mae'n darparu Gwybodaeth ac Eiriolaeth galw heibio am dri diwrnod yr wythnos. Yn drydydd, mae'n darparu cymorth i asiantaethau sy'n gweithio gyda gweithwyr mudol ac yn trefnu hyfforddiant i asiantaethau sy'n gweithio gyda gweithwyr mudol.

## Yn gyffredinol

- Nid oedd yr ymchwil hwn yn gallu rhoi gwell amcangyfrifon o niferoedd gweithwyr mudol oherwydd y diffyg ffynonellau gweinyddol lleol a oedd yn cofnodi p'un a oedd rhywun yn weithiwr mudol.
- Darparodd yr ymchwil ddata defnyddiol ar batrymau lleol o fudo, yn cynnwys newidiadau dros amser, galwadau ar wasanaethau, ac ymatebion gan awdurdodau lleol, sefydliadau statudol, a sefydliadau gwirfoddol.
- Archwiliodd yr ymchwil hefyd y pwysau sydd wedi bod ar rai gwasanaethau, megis darpariaeth ar gyfer plant y rheiny nad yw eu hiaith gyntaf yn Gymraeg nac yn Saesneg, yr angen i archwilio Tai Amlfeddiannaeth, a'r angen am gyfieithu.
- Hefyd rhoddodd yr ymchwil safbwynt a phrofiad y gweithwyr mudol eu hunain.
- Roedd aflonyddu hiliol, a adroddwyd mewn rhai ardaloedd, yn golygu cam-drin geiriol yn bennaf.

- Roedd gweithwyr mudol yn cael eu cyflogi'n bennaf mewn swyddi cyflog isel, megis prosesu bwyd, nad ydynt yn aml yn ddeniadol i unigolion nad ydynt yn fudwyr, ac roeddynt yn gweithio oriau hir.

Mae canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol ynglŷn â datblygu gwell amcangyfrifon o niferoedd gweithwyr mudol ym mhennod 7. Mae hyn yn cynnwys enghreifftiau o sut y gellir cyfuno data o wahanol ffynonellau. Yn Southampton, defnyddiwyd data'r Cyfrifiad Ysgol a'r WRS i ddarparu amcangyfrif da o'r nifer o fudwyr A8 oedd yn byw yno.